

**Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Maethu**

**Parhaol – 37 awr yr wythnos**

**Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso**

**Graddfa G05 £33,024 - £35,745**

**Gweithwyr Cymdeithasol Lefel 3 (Wedi datblygu drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus)**
**Graddfa G06 £36,648 - £39,186**

**Lleoliad: Swyddfeydd y Sir, Y Fflint, Sir y Fflint**

Rydym ni'n chwilio am Weithwyr Cymdeithasol cymwys a pharhaol ar gyfer ein Timau Maethu.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n gallu dangos sgiliau asesu sy'n ymwneud â hyfywedd, unigolion cysylltiedig, gofalwyr maeth, gwarcheidwaid arbennig a gofalwyr maeth preifat.

Mae sgiliau cyfathrebu effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, yn allweddol i'r swydd hon yn ogystal â'r gallu i greu a chynnal perthynas waith dda gyda'r holl bartïon. Byddai profiad o gynnal a chwblhau asesiadau yn unol â safonau lleol a chenedlaethol yn ddymunol.

Rydym yn chwilio am rywun sydd â phrofiad yn y maes hwn ac sydd â gwybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae gallu siarad Cymraeg yn ddymunol.

Mae'n rhaid i ddeiliaid y swydd fod wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac oherwydd bod y swydd hon yn arwain at gysylltiad sylweddol gydag oedolion a/neu blant diamddiffyn byddwch hefyd yn destun gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael trafodaeth anffurfiol cysylltwch â:

Suzanne Johnston – Rheolwr Tîm - suzannejohnston@flintshire.gov.uk

Peter Robson – Rheolwr Gwasanaeth – Peter.Robson@flintshire.gov.uk

Bydd trefniadau gweithio rhan-amser, rhannu swydd a threfniadau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn sgil pwysig a gwerthfawr yn y gweithle ac rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r nifer o weithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau am unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn hefyd yn cefnogi unrhyw aelodau staff newydd neu gyfredol sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella / datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL